



# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 02.11.2015*

## *Taith Gwenllïan Anthony i Batagonia*

Blwyddyn yn nôl daeth cyfle i bobl ifanc Cymru i geisio am le ar daith i Batagonia. Roedd angen i mi lenwi ffuflen gais yn egluro pam fy mod eisiau mynd i Batagonia ac os y byddem yn cael fy newis byddai angen codi £2400! Roeddwn yn ffodus iawn o gael fy newis, gyda 25 o ieuenctid yr Urdd i fynd dros wyliau hanner tymor Hydref .



Dechreuodd y daith wrth hedfan am 12 awr o Heathrow i Buenos Aires, ac wedyn hedfan o Buenos Aires i Esquel. Y noson honno, cawsom ni'r cyfle i gwrdd â Dawnsyr Cwm Hyfryd mewn Twmpath yn yr ysgol uwchradd leol. Dim yr hyn roedd pawb eisiau gwneud ar ôl 37 awr o deithio! ond cawsom lawer o hwyl yn gwyllo'r ieuenctid lleol yn cymryd balchder wrth ddawnsio gwerin, er bod rhai heb gyndadau Cymraeg o gwbl! Fe gwrddon ni a rhai oedd yn siarad Cymraeg fel Hevin a Soffi Green, a dyma'r profiad cyntaf a gawsom o'r acen Sbaeneg-Cymraeg.

Cawsom gyfle i berfformio mewn llawer o gyngherddau gyda chôr leuencid Cymru a Catrin Finch tra'n teithio o amgylch Patagonia a chefais fy newis i arwain y côr bob tro. Er bod pawb wedi cael digon o glywed a chanu 'Lawr ar Lan y Môr', roedd o'n brofiad anhygoel i glywed y gynulleidfa yn ymuno a chyd-ganu gyna ni! Un o fy hoff gyngherddau oedd Côr leuencid Cymru yn Nhrelew, lle cefais i'r cyfle i glywed y bobl leol yn canu 'Hen Wlad fy Nhadau' gydag angerdd.

Ymwelom â llawer o ysgolion Cymraeg a Sbaeneg fel Ysgol Y Cwm yn Nhrevelin. Deg o ddisgyblion yn unig oedd yn yr ysgol feithrin. Roedd o'n anhygoel i feddwl bod y rhieni wedi

dewis i'w plant fynychu ysgol Gymraeg er bod dim hanes o Gymru yn y teulu. Cawsom y cyfle i chwarae gemau fel 'torri'r gacen' a chanu caneuon fel 'Franz o Wlad Awstria'. Roedd y plant yn mwynhau mas draw gan fod gymaint o bobl ifanc yn ymweld â Phatagonia.

Hoffwn ddweud diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at y daith, hebddoch chi, byddwn i ddim wedi gallu mynd a chael y profiad arbennig yma! Hefyd hoffwn ddiolch i Jones and Johnson a'r Siswrn am eich cymorth gyda chodi'r arian.

*Adroddiad gan Gwenllïan Anthony*

## **Blog Taith America 2015**

Ers i ni fod ym Mlwyddyn 7, rydyn ni wedi clywed hanesion ac atgofion bythgofiadwy disgyblion 11 o daith flynyddol Adran Hanes Ysgol Bro Myrddin i America. Mae'r daith, sy'n ymweld â Washington D.C, Philadelphia ac Efrog Newydd, bob amser yn cael ei gweld fel uchafbwynt disglair yng nghanol dŵch pwysau'r cyrsiau TGAU, ac eleni fy nhro i oedd casglu'r atgofion ac adrodd yr hanesion.

Er mai 2 o'r gloch y bore oedd hi pan adawon ni Ysgol Bro Myrddin am Heathrow, cyffro nid blinder oedd yn mynnu ein sylw ar y bysiau. Cyrhaeddwn ni'r maes awyr gyda digon o amser yn weddill ac wedi cael brecwast yno, aethom un ac oll ar awyren fwya'r byd - yr A380- a fyddai'n ein cludo'r holl ffordd i Washington. Bu'r daith yn un hwylus a rhoddodd gyfle i ambell un gysgu cyn bwrwm America. Wedi inni gyrraedd, aethom yn syth draw i'r gwesty cyn cael taith o amgylch prifddinas yr U.D.A. yn y tywyllwch. Cawsom gyfle i weld adeiladau eiconig fel y Tŷ Gwyn, adeilad y Trysorlys a Phensylvania Avenue i gyd yn goleuo'n llachar yn y nos. Erbyn i ni gyrraedd yr Hard Rock Cafe serch hynny, doedd y chwant am fwyd ddim yn wych gyda phawb yn brwydro i aros yn effro wedi siwrne hirfaith.



Dros y deuddydd nesaf yn Washington, gwelsom Ford's Theatr lle cafodd yr Arlywydd Lincoln ei lofruddio ynghyd â'r Gyngres, Llyfrgell y Gyngres, adeilad y Llys Goruchaf a Mynwent Arlington - lle mae bedd Yr Arlywydd Kennedy yn cael ei ddynodi gan y fflam fythol. Ac yn goron ar hyn i gyd yr oedd cofebion Martin Luther King, Abraham Lincoln

a George Washington. Roedd y tair cofeb yma mor drawiadol ac yn llwyddo i wneud i chi sylweddoli cymaint o gewri oedd y tri yn eu dydd a pha mor gyfoethog yw hanes America.

Wedi tridiau gwerth chweil yn y brifddinas, aethom yn ein blaenau i Philadelphia. Wedi dechrau ben bore o Washington, aethom i garchar Eastern State i glywed hanesion cyn garcharorion megis Al Capone, cyn mynd yn ein blaenau i gael ras i fyny'r 'Rocky Steps' a ddaeth i enwogrwydd trwy'r ffilmiau *Rocky*. I ginio aethom i un o'r neuaddau bwyd enwocaf yn America lle ymgeisiodd ambell un fwyta cig crocodeil ymysg amryw o bethau eraill. Yr arhosfan olaf yn Philadelphia oedd Adeilad Annibyniaeth America lle arwyddwyd y datganiad dros annibyniaeth gan George Washington yn 1776 gan agor y drysau i fath newydd o ddemocratiaeth.

Wedi noson dda o gwsg yn Philadelphia, aethom draw i Efrog Newydd ac i'n gwesty nid nepell o Times Square. Y diwrnod cyntaf hwnnw yn Efrog Newydd oedd diwrnod prysuraf y daith, gyda thaith drwy Central Park lle gwelsom gofeb i John Lennon. Cawsom hefyd ein hargraffiadau cyntaf o Times Square - y lle mwyaf llachar y bum ynddo erioed. Ym mhob twll a chornel roedd sgrin electroneg yn darlledu hysbysebion ar gyfer pob math o gynnyrch; roedd y traffig i bob pwrpas yn ddisymud ac i bob cyfeiriad llifai grŵp ar ôl grŵp o bobl o wahanol gefndiroedd i boblogi'r ardal.

Y noson honno oedd un o nosweithiau mwyaf bythgofiadwy fy mywyd. I ddechrau, fe gymeron ni ran yn y *flash mob* yn Times Square lle canodd dros 400 o bobl yr anthem genedlaethol. Llwyddodd Dr Huw Griffiths, Pennaeth yr Adran Hanes, i gynnwll yr holl ysgolion o Gymru a oedd allan yno ar y pryd yn ogystal â dogn o Gymry Efrog Newydd i risiau Times Square. Wedi i Dr Griffiths orffen ei gyfweliadau niferus a mwynhau ei enwogrwydd newydd, dechreuodd y canu. Am funud, stopiodd Efrog Newydd i wrando arnom yn bloeddio canu gyda brwdfrydedd afieithus. Wrth edrych i bob cyfeiriad, gwelais bawb â'u llygaid yn edrych arnom. Er fy mod mewn gwlad bell bell i ffwrdd o Gymru fach, gallaf ddweud gyda llaw ar fy nghalon fod y *flash mob* yn un o'r prin brofiadau hynny sy'n eich llenwi chi â balchder o fod yn Gymro Cymraeg.

Ond nid dyma oedd clo'r noson. Aethom ymlaen i'r Empire State Building er mwyn gweld holl oleuadau Efrog Newydd yn y nos. Yno, yn teimlo fel ein bod ar ben y byd, cawsom luniau trawiadol ac atgofion bythgofiadwy gyda'n ffrindiau.



Roedd diwedd y daith yn prysur gyrraedd, ond cawsom amser i weld lleoliadau enwog fel Pont Brooklyn, Statue of Liberty, Wall Street, Cofeb 9/11, Freedom Tower lle'r oedd yr

hen Twin Towers a gorsaf drên fwyaf y byd - Grand Central Station. Ar y noson olaf, aethom i gyd i Broadway i weld Jersey Boys. Dyma oedd cyfle pawb i wisgo fyny yn eu dillad trwsiadus a chael cyfle i deithio i'r theatr mewn steil yn eu 'streich limos'. Profiad bythgofiadwy arall!

Ar y bore olaf hwnnw, cawsom gyfle i orffen prynu anrhegion yn un o siopau mwya'r byd – Macy's – cyn mynd i 'Top of the Rock'. Wedi i'r tywydd amharu ar y cynlluniau i fynd yno ddiwrnod yng nghynt, roedd yr athrawon yn benderfynol y bydden ni cael gweld y ddinas yn ei chyfanwydd yng ngolau dydd. Ac wedi inni gyrraedd y llawr uchaf, gallwn weld pam eu bod am inni brofi'r profiad rhyfeddol hwnnw. Er mor wyntog oedd hi, roedd y golygfeydd 360 gradd yn anhygoel – roedden ni'n gallu gweld popeth, yn glo gwefreiddiol i'n taith yn America.

Llwythwyd y bysiau ac roeddem ar ein taith i'r maes awyr ac ar ein taith am adref. Er na chysgodd braidd neb ar yr awyren nac ar y bws ar y ffordd draw, stori wahanol oedd hi ar y ffordd nôl gyda phrysurddeb yr wythnos ddiwethaf yn bwrw pawb am y tro cyntaf. Toc wedi hanner awr wedi deuddeg yn y prynhawn, parciodd y ddau fws ym mae bysiau'r ysgol – roedd y daith i'r 92 ohonom wedi dod i'w therfyn.

Rhaid diolch i'r 10 athro a roddodd wythnos o'u gwyliau er mwyn inni gael y profiadau bythgofiadwy hyn. Yn ddiâu hon oedd un o wythnosau gorau ein bywyd, wythnos a fydd wedi ei serio yn ein cof am byth.

*Adroddiad gan Garmon Dyfri Blwyddyn 11*